


**Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru - Gwerth
ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn cynyddu
cyd-nerthu cymunedol yn wyneb llifogydd**

Crynodeb Gweithredol



ERS

30 Queen Square
Bristol
BS1 4ND

T: 0117 927 3401

F: 0117 929 4189

E: bristol@ers.org.uk

www.ers.org.uk

CYNNWYS

Cyflwyniad.....	Error! Bookmark not defined.
Methodoleg.....	3
Canfyddiadau	Error! Bookmark not defined.
Argymhellion	Error! Bookmark not defined.

Cyflwyniad

Ym mis Rhagfyr 2015, comisiynwyd ERS Ltd. gan dîm Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru (YLIC) yn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gynnal adolygiad o dystiolaeth ac ymchwil sylfaenol er mwyn ystyried gwerth ymgysylltu â phobl ifanc gyda'r bwriad o gynyddu cyd-nerthu cymunedol yn wyneb llifogydd. Hyd yma, roedd CNC wedi canolbwyntio gweithgareddau ymgysylltu ar blant oedran ysgol ac oedolion oedd mewn perygl o lifogydd. Roedd CNC yn cydnabod bod bwlch yn ei ddealltwriaeth o ymwybyddiaeth, canfyddiad ac agweddau tuag at berygl llifogydd yn y grŵp oedran rhwng 16-25 oed (cyfeirir at y rhain fel 'pobl ifanc' drwy gydol yr adroddiad hwn). Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg o dystiolaeth a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2015 ac Ionawr 2016, a chyfres o grwpiau ffocws gyda phobl ifanc rhwng 16-25 oed ar draws Cymru, a gynhaliwyd ym mis Chwefror a Mawrth 2016.

Methodoleg

Cynhaliodd y tîm adolygiad cynhwysfawr o dystiolaeth (h.y. llenyddiaeth academiaidd a data ynghylch tueddiadau), a bu hyn yn sail i'r dasg o samplu saith grŵp ffocws gyda phobl ifanc ar draws Cymru. Tynnodd yr adolygiad o dystiolaeth sylw at ffactorau allweddol yng nghanfyddiad, agwedd ac ymddygiad oedolion mewn perthynas â pherygl llifogydd. Crynhodd hefyd ddamcaniaethau ynglŷn â sut y gallai'r nodweddion y sylwyd arnynt mewn pobl ifanc ddylanwadu ar eu canfyddiad, agwedd a'u hymddygiad tuag at berygl llifogydd. Dewiswyd saith grŵp ffocws mewn ardaloedd mewn perygl, neu oedd wedi cael profiad diweddar o lifogydd afonol ac arfordirol, mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd. Dewiswyd y cyfranogwyr ar sail y ffactorau a amlinellwyd yn yr adolygiad o dystiolaeth, sef: sefyllfa fyw/ cyfnod bywyd a phrofiad o lifogydd.

Canfyddiadau

Archwiliodd y grwpiau ffocws ganfyddiadau, ymwybyddiaeth ac agwedd y cyfranogwyr drwy ddefnyddio senario ddamcaniaethol o lifogydd. Sylwyd ar wahaniaethau arwyddocaol yn seiliedig ar gyfnod bywyd yr unigolion, megis cyfrifoldeb ymddangosiadol; canfyddiad o risg; lefel pryder; parodrwydd i weithredu; a ffynonellau gwybodaeth a chyfarwyddyd. Y prif wahaniaethau rhwng y rhai hynny oedd wedi cael profiad o lifogydd a'r rhai hynny na chawsant y profiad hwnnw oedd i ba raddau roedden nhw'n ymddiried mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd neu awdurdodau i'w diogelu. Roedd bod â chyswllt ag ardal yn y gorffennol neu yn y dyfodol yn ffactor allweddol wrth bennu a fyddai'r cyfranogwyr yn dangos consyrn dros y gymuned ehangach a pharodrwydd i gymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chyd-nerthu cymunedol yn wyneb llifogydd. Mae'r nodweddion sy'n debyg y sylwyd arnynt bron ym mhob un o'r cyfranogwyr fel a ganlyn: camddealltwriaeth cyffredinol o risg wedi'i gyflwyno mewn termau tebygol; canfyddiad isel o'r risg o lifogydd a thuedd i beidio sylweddoli gwerth neu ddiystyru rhybuddion tywydd a llifogydd. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gall fod dau brif ffactor sy'n gysylltiedig â chyfnod bywyd ac ymateb i'r perygl o lifogydd. Sef:

1. **Cyswllt ag eiddo / meddiannau** – gall hyn fod naill ai'n eiddo sy'n perthyn i'w teulu neu eu heiddo personol.
2. **Cyswllt â'u hardal** – naill ai yn y gorffennol (e.e. 'lle ces i fy magu'), presennol neu'r dyfodol a ragwelir (e.e. yn cynllunio i aros mewn ardal).

Arweiniodd y ffactorau hyn at bennu nodweddion cychwynnol tri 'chfnod bywyd' posib (Tabl 1.1) y sylwyd arnynt yn yr astudiaeth hon a gallai'r rhain ddarparu ffordd ddefnyddio o ddeall sut i ymgysylltu â phobl ifanc.

Awgrymodd y cyfranogwyr y byddai rhyw ffurf ar addysg gaiff ei gweinyddu drwy ysgolion neu golegau yn gymharol fuddiol (mewn ffordd debyg i sut y cyflwynir perygl tân). At hyn, roedd y bobl ifanc yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd, roedd ganddynt gysylltiadau niferus ar-lein a byddent yn aml yn troi at ffynonellau ar-lein i geisio gwybodaeth. Soniodd y cyfranogwyr am gyfnodau penodol pryd y byddai gwybodaeth am beryglon llifogydd a chynllunio yn fwyaf buddiol ac roedd y rhain yn cyfateb yn fras i gyfnodau allweddol o newid neu bontio mewn bywyd, megis gadael cartref am y tro cyntaf, a rhentu neu brynu eu cartref cyntaf.

Tabl 1.1 Crynodeb o nodweddion cyfnod bywyd (parhad dros y dudalen)

Dibyniaeth	Cyfnod pontio i annibyniaeth	Sefydlu annibyniaeth
<p><i>Yn ddibynol ond yn ystyried annibyniaeth yn y dyfodol.</i></p>	<p><i>Graddfeydd amrywiol o ddibyniaeth ac annibyniaeth yn dibynnu ar y llwybr e. e. yn gadael cartref y teulu am y tro cyntaf i weithio neu fod yn fyfyrwr.</i></p>	<p><i>Mwy o sefydlogrwydd o ran gyrfa, cartref swyddogol, cydberthynas etc.</i></p>
<ul style="list-style-type: none"> ▪ Sefyllfa byw: Yn byw gyda rhieni/teulu/gofalwyr. ▪ Canfyddiad o Risg: Ymdeimlad dwysach o risg, tuedd i wylltio a 'disgwyl y gwaethaf'. Lefel cymharol uchel o gonsyrn am effeithiau posib llifogydd (ar eiddo, teulu, cymuned). Cyfeirio at lifogydd yn y gorffennol (neu eu diffyg) er mwyn pennu barn am risg. ▪ Ymlyniad: Ymlyniad personol ac emosiynol wrth teulu, cartref a chymuned. Ymlyniad sentimental wrth gartref y teulu. Yn meddu ar gyswllt â'r ardal yn y gorffennol a'r presennol. ▪ Cyfrifoldeb ac asiantaeth: Nid y prif berson sy'n gwneud penderfyniadau ac yn teimlo felly nad nhw sydd â'r cyfrifoldeb yn y pen draw. ▪ Cyfrifoldeb dros eraill: Nid oes ganddynt gyfrifoldeb yn y pen draw drostynt eu hunain/eiddo neu eraill, felly maent yn gallu cynnig cefnogaeth i eraill sy'n llai abl/ mewn angen. ▪ Rhwydwaith cefnogi / cyfalaf cymdeithasol: Yn debygol o fod wedi sefydlu rhwydwaith cefnogi lleol o aelodau teulu a ffrindiau gerllaw. ▪ Ffynonellau y gellir ymddiried ynddynt: Dylanwad rhieni yn aml yn dal yn gryf iawn – yn troi at y rhieni am arweiniad/arweinyddiaeth, er hynny'n meddu ar ymwybyddiaeth o ffynonellau (swyddogol) eraill. O'r farn bod gwybodaeth leol yn bwysig, yn arbennig yn achos cymunedau gwledig. 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Sefyllfa byw: Yn byw'n annibynol ar eu rhieni ond yn debygol o fod mewn llety a rennir e.e. tai a rennir neu neuaddau preswyl mewn prifysgol. Tenantiaethau byrion a newid cartref swyddogol yn rheolaidd. ▪ Canfyddiad o Risg: Canfyddiad isel iawn o risg – hyd yn oed os yw'r risg wedi ei chanfod/ adnabod, gall y tebygrwydd o ddigwydd a'r canlyniad fod yn ddibwys yn eu barn nhw. Mae'n bosib nad ydynt yn gyfarwydd â'r ardal a'r peryglon cysylltiedig. Safbwynt optimistig y 'bydd popeth yn iawn'. Ddim yn ystyried bod y perygl lleol o lifogydd yn bwysig oherwydd eu bod yn debygol o symud. Lefel isel iawn o bryder dros effeithiau posib llifogydd. ▪ Ymlyniad: Lefelau isel o bryder dros eu cartref swyddogol a/ neu eiddo – mae'r rhan fwyaf o'u heitemau sydd â gwerth sentimental yn cael eu cadw yn rhywle arall. Annhebygol o fod wedi buddsoddi amser neu adnoddau ariannol mewn eiddo / cartref swyddogol. Yn ystyried eu lleoliad a'u sefyllfa bresennol fel pethau dros dro ac yn annhebygol o fod â chyswllt ag ardal/eiddo yn y gorffennol neu yn y dyfodol. ▪ Cyfrifoldeb ac asiantaeth: Lefelau isel o gyfrifoldeb ac yn tybied mai rheolaeth finimol sydd ganddynt dros sefyllfa. O'r farn bod ganddynt nifer o 'rwydi diogelwch', e.e. neuaddau, prifysgol, teulu. 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Sefyllfa byw: Yn byw'n annibynol ar eu rhieni/teulu/gofalwyr. Yn gyfrifol am eu tenantiaeth eu hunain neu'n berchen eiddo. ▪ Canfyddiad o Risg: Canfyddiad isel o berygl llifogydd o'i gymharu â risgiau eraill. Er hynny, yn debygol o ystyried risg a risg yn y dyfodol os yn buddsoddi/ymgartrefu yn rhywle (h.y. yn debygol o gael cyswllt yn y dyfodol). ▪ Ymlyniad: Mwy o ymlyniad emosiynol a phersonol wrth eiddo, cymuned, meddiannau. Yn fwy tebygol o fod wedi buddsoddi amser neu adnoddau ariannol mewn eiddo neu feddiannau. ▪ Cyfrifoldeb ac asiantaeth: Mwy o gyfrifoldeb drostynt eu hunain a/neu ddibynnydd (anifail anwes, plentyn neu berthynas mewn angen). ▪ Rhwydwaith cefnogi: Sefydlu rhwydwaith cefnogi y tu hwnt i rieni a'r teulu agos. ▪ Ymddygiadau: Efallai na fyddant yn cymryd camau gweithredu uniongyrchol ond er hynny mae ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i weithredu'n ymarferol. Gall canfyddiad isel o berygl arwain o bosib at hunanfodlonrwydd.

<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ymddygiadau: Tuedd i weithredu dan arweiniad pobl eraill, ansicr o’u gallu personol ond mewn gwirionedd yn abl ac yn ymwybodol iawn. ▪ Symbyliadau ar gyfer gweithredu cymdeithasol: Ymlyniad personol ac emosiynol, cyswllt â’r gymuned, cyflogadwyedd a datblygu CV, ennill ‘sgiliau bywyd’ ar gyfer cyfnodau hwyrach mewn bywyd. Consyrn am y gymuned ehangach ac ymdeimlad o gryfderau personol e.e. corfforol/gwybodaeth. ▪ Rhwystrau i weithredu/gweithredu cymdeithasol: Diffyg arweiniad neu lefel isel o hyder yn eu gallu personol. ▪ Anghenion: Angen sicrwydd, cyfarwyddyd ac arweinyddiaeth. Cymhwyso â sgiliau ar gyfer annibyniaeth yn y dyfodol. ▪ Cyfleoedd i ymgysylltu: Drwy gyfrwng clybiau, grwpiau a mentrau sydd eisoes yn bod lle gall pobl ifanc gymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol e.e. Clybiau Ffermwyr Ifanc, Y Cadetiaid, Gwobr Dug Caeredin, Bagloriaeth Cymru etc. Drwy’r ysgol – addysg a ‘sgiliau bywyd’/ gweithrediadau ymarferol. Y cyfryngau cymdeithasol a’r rhyngwyd. 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Cyfrifoldeb dros eraill: Gall fod tuedd i fod yn hunan-ganolbwyntiedig/ myfiol gyda llai o gonsyrn dros eraill a’r gymuned leol. ▪ Rhwydwaith cefnogi/ cyfalaf cymdeithasol: Rhwydweithiau cefnogi lleol yn debygol o fod yn gyfyngedig i gyfoedion mewn sefyllfa fyw a chyfnod bywyd tebyg. Cyswllt cyfyngedig â’r gymuned leol. Cyfnod o ansefydlogrwydd cymharol – symud yn rheolaidd, newid rhwydweithiau cymdeithasol, newid trefn. ▪ Ymddygiadau: Posiblrwydd o fwy o fyrbwylltra, fforio ac arbrofi a methu, chwilio am hwyl, profiad a sbort, ofn colli allan. ▪ Ffynonellau y gellir ymddiried ynddynt: Posiblrwydd o gael eu dylanwadu yn fwy gan eu cyfoedion nag ar unrhyw gyfnod arall mewn bywyd. Ymddiried yn y sawl sy’n cael eu gweld fel y rhai sy’n gyfrifol am eu diogelwch, e.e. rhieni, prifysgol ac ‘awdurdodau’ eraill. Drwgdybio landlordiaid a chwmnïau yswiriant. ▪ Symbyliadau ar gyfer gweithredu cymdeithasol: Manteisgar – byddent yn gweithredu pe baent yn cael eu denu. Pwysedd o du cyfoedion ac ofn colli allan. Datblygu Cyflogadwyedd a CV. ▪ Rhwystrau i weithredu/gweithredu cymdeithasol: Myfioldeb, diffyg consyrn dros y cartref swyddogol a/neu eiddo (oherwydd diffyg buddsoddiad neu ymlyniad). ▪ Anghenion: Gwybodaeth a chyngor i’w ddal gan y rhai y tybir sydd yn gyfrifol (e.e. prifysgol neu rieni). ▪ Cyfleoedd i ymgysylltu: Ar ddechrau’r cyfnod o gychwyn mewn prifysgol neu rentu tŷ. Drwy gyfrwng prifysgolion a landlordiaid yn y lle cyntaf. Y cyfryngau cymdeithasol a’r rhyngwyd. 	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Ffynonellau y gellir ymddiried ynddynt: Rhieni yn parhau’n ffynhonnell wybodaeth, cyngor a chefnogaeth bwysig. Yn dysgu ‘sgiliau bywyd’ newydd a ffynonellau gwybodaeth, canfod cyngor y tu allan i rwydweithiau cymdeithasol a’r teulu e.e. rhybuddion llifogydd a’u hystyr, ffynonellau gwybodaeth swyddogol. Drwgdybio landlordiaid a chwmnïau yswiriant. ▪ Symbyliadau gweithredu/gweithredu cymdeithasol: Colli neu ddifrod i eiddo personol a/neu ddibynyddion. Consyrn dros y gymuned ehangach ac ymdeimlad o gryfderau personol e.e. corfforol/gwybodaeth. ▪ Rhwystrau i weithredu/gweithredu cymdeithasol: Diffyg brys neu lai o ganfyddiad o berygl oherwydd diffyg profiad. Poeni’n fwy amdanant eu hunain (a’u dibynyddion) yn hytrach na’r gymuned ehangach. ▪ Anghenion: Dealltwriaeth gliriach o risg. Gwybod ble i fynd er mwyn dod o hyd i gamau gweithredu ymarferol. ▪ Cyfleoedd i ymgysylltu: Y cyfryngau cymdeithasol a’r rhyngwyd. Ar fin rhentu neu brynu tŷ drwy landlordiaid neu gwmnïau yswiriant.
--	--	---

Argymhellion

Defnyddiwyd canfyddiadau'r grŵp ffocws, adolygiad o dystiolaeth a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid fel sail i'r casgliadau a'r argymhellion canlynol.

Strategaeth Ymgysylltu

Cyfleoedd allweddol ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc

Awgryma'r ymchwil fod yna gyfnodau pryd y gall pobl ifanc fod yn arbennig o barod i dderbyn gwybodaeth am beryglon llifogydd, yn dibynnu ar eu cyfnod bywyd:

- Roedd y rhai hynny sy'n paratoi i adael cartref y teulu yn dangos diddordeb mewn dod i ddeall 'beth i'w wneud', er mwyn cefnogi cymunedau yn ogystal ag ymgymhwyso wrth baratoi am fwy o annibyniaeth.
- Roedd y rhai hynny sy'n ennill mwy o annibyniaeth, yn rhentu am dymor hwy neu'n prynu eiddo a chanddynt ymwybyddiaeth uwch o sefydlogrwydd, yn dangos diddordeb mewn deall am beryglon llifogydd a sut i baratoi eu hunain.

Argymhelliad: Gallai'r ddau gyfnod pontio hyn ddarparu'r cyfleoedd cyntaf ar gyfer datblygu ymgysylltu mewn perthynas â chyfnod bywyd. Er bod awgrymiadau wedi eu cynnig ar sut i ymgysylltu â phobl ifanc yn ystod y cyfnodau hyn (h.y. yn yr ysgol neu drwy gyfrwng landlord / yn ystod y broses o brynu tŷ), byddai'n werth ymchwilio ymhellach p'un o'r opsiynau hyn sydd fwyaf ymarferol, gan gynnwys sut y gellid eu cyflenwi a gan bwy.

Deall cyfnodau bywyd

Mae'r ymchwil hon wedi dechrau adnabod cyfnodau bywyd sy'n dod i ran pobl ifanc, ac mae'n bosib y gall y rhain fod yn ffordd ddefnyddiol o ddeall agweddau ac ymddygiadau y tu hwnt i ddiffiniadau ar sail oedran. Er y gall nifer y cyfnodau pontio fod yn arbennig o uchel yn achos pobl ifanc o'i gymharu â grwpiau hŷn, mae yna hefyd nifer o gamau bywyd eraill nad ydynt wedi eu harchwilio'n fanwl yn yr ymchwil hon ac a allai o bosib gynnig cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad a dargedir mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd.

Argymhelliad: Byddai'n werth ymchwilio p'un ai a allai 'cyfnodau pontio' allweddol 'mewn bywyd', e.e. prynu tŷ, dechrau teulu, symud tŷ neu ymddeol fod yn gyfnodau effeithiol ar gyfer ymgysylltu a dargedir mewn perthynas â llifogydd, a ph'un ai a yw'r rhain yn arwain at newid parhaus mewn ymddygiad. Gallai strategaethau ymgysylltu yn y dyfodol ystyried targedu ymgysylltu a negeseua adeg cyfnodau bywyd a 'chyfnodau pontio mewn bywyd' er mwyn mwyafu effeithiolrwydd a dylent fonitro effaith y dull gweithredu hwn yn fanwl.

Negeseua

Roedd y bobl ifanc yn arddangos dealltwriaeth ddamcaniaethol o lifogydd yn yr astudiaeth, ond yn teimlo'n llai hyderus ynglŷn â pha gamau i'w cymryd cyn, yn ystod ac yn dilyn llifogydd. Roedd cymorth i'r cof am 'beth i'w wneud', a hwnnw wedi'i gyflwyno'n weledol neu drwy ddefnyddio fideo, ymhlith yr awgrymiadau a gafwyd.

Argymhelliad: Dylai cyfathrebu am reoli perygl llifogydd ganolbwyntio ar negeseua clir gyda chamau gweithredu ymarferol cyn, yn ystod ac yn dilyn llifogydd – ac roedd cyflwyniad gweledol neu amlgyfrwng yn cael ei ffafrio.

Y Rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol

Dengys yr ymchwil fod pobl ifanc yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd, a *Facebook* yn arbennig. Byddent yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gysylltu â ffrindiau a theulu ac i gyfleu gwybodaeth am lifogydd. Bydd pobl ifanc yn defnyddio'r rhyngrwyd a *Google* hefyd fel 'cyrchfan' i gael at unrhyw ddiweddariadau neu gyfarwyddyd.

Argymhelliad: A derbyn bod y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd yn cael eu defnyddio mor helaeth gan bobl ifanc, dylai strategaethau ymgysylltu yn y dyfodol gydnabod gwerth y rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol fel cyfryngau ymgysylltu. Gellid defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel ffynhonnell wybodaeth ac fel cyfrwng rhyngweithiol hefyd ar gyfer lledaenu a rhannu cynnwys a grëwyd gan ddefnyddwyr mewn perthynas â pheryglon. Gallai camau gweithredu gynnwys edrych ar Optimeiddio Peiriannau Chwilio (*SEO*) mewn perthynas â safleoedd allweddol ac archwilio'r ffordd orau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn ymgysylltu â pherygl llifogydd.

Addysg

Pwysleisiwyd gwerth posib dull o weithredu mewn ysgol yn yr ymchwil hon. Dylai addysg am reoli perygl llifogydd ganolbwyntio ar gamau gweithredu ymarferol ac ar dargedu unrhyw gamsyniadau neu ymddygiadau sy'n parhau hyd oedolaeth.

Argymhelliad: Dylai unrhyw ddull o weithredu mewn ysgol geisio cysylltu'r gweithgareddau â'r cwricwlwm a chynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu amlddisgyblaethol. Un opsiwn posib yw dechrau trwy dargedu cymunedau sydd fwyaf mewn perygl o lifogydd gan ystyried cyflwyno yn y dyfodol.

Datblygu Partneriaeth

Rhwydweithiau ieuencid

Canfu'r ymchwil bod nifer o sefydliadau gweithredol sy'n caniatáu i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol yng Nghymru. Mae gan y sefydliadau hyn gysylltiadau hirsefydlog â phobl ifanc ac mae yma rywfaint o awydd cychwynnol i ymestyn gweithgareddau i gynnwys gweithredu cymdeithasol sy'n gysylltiedig â rheoli perygl llifogydd. Nid oedd cyfranogwyr unigol mewn grwpiau ffocws fodd bynnag yn dangos rhyw frwdfrydedd arbennig dros gymryd rhan mewn gweithredu cymdeithasol ffurfiol sy'n gysylltiedig â llifogydd oni bai eu bod eisoes yn ymwneud ag un o'r sefydliadau hyn. Mae hyn yn tynnu sylw at y manteision o ymgysylltu drwy gyfrwng grwpiau trefnedig sydd eisoes yn bod.

Argymhelliad: Yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn, mae'n gwneud synnwyr ymarferol i CNC adnabod a chychwyn cyswllt cychwynnol gyda sefydliadau sydd eisoes â chyswllt â phobl ifanc ac all fod yn barod i ddatblygu dull o weithio fel partneriaeth strategol. Gallai'r rhain gynnwys:

- Sefydliadau sy'n gyfrifol am bobl ifanc, er mwyn datblygu cynlluniau neu strategaethau llifogydd e.e. darparwyr tai cymdeithasol, prifysgolion, colegau ac yn y blaen
- Sefydliadau ieuencid, er mwyn archwilio cyfleoedd ar gyfer rhaglen o weithredu cymdeithasol gan ieuencid ar lefel strategol a lleol fel ei gilydd. Ymhlith y sefydliadau sy'n werth eu hystyried

mae: Clybiau Ffermwyr Ifanc, Ambiwylans Sant Ioan/Y Groes Goch, Corfflu'r Cadetiaid a grwpiau ieuenctid lleol.

Datblygu Polisi

Cyfrifoldebau Landlord

Roedd pobl ifanc yn y grwpiau ffocws yn tybied mai landlordiaid yn y lle cyntaf fyddai'n gyfrifol am baratoi ar gyfer llifogydd a mynd i'r afael â difrod yn dilyn llifogydd. Gallai gweithio'n agos gyda landlordiaid fod yn ffordd effeithiol iawn o wella rheoli perygl llifogydd, o wybod am y nifer cynyddol o bobl ifanc sy'n rhentu tai.

Argymhelliad: Un ffordd o symud hyn ymlaen fyddai ystyried cyflwyno polisiau, neu newidiadau, er mwyn gwarchod tenantiaid. Gall hyn olygu lledaenu cyfarwyddyd arfer gorau drwy gymdeithasau landlordiaid neu archwilio cynlluniau llifogydd gorfodol – e.e. rhwymedigaeth i warchod tenantiaid rhag perygl llifogydd ac effeithiau llifogydd e.e. cynllun llifogydd neu becyn llifogydd ym mhob eiddo ar rent sydd mewn perygl.